



Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro and Governor Support Unit

Llythyr Newyddion



Nodyn gan y Cadeirydd

Mae arholiadau wedi newid ers fy amser i. Rydw i newydd fod yn gwylio fy mab, sy'n athro mathemateg, yn marcio papurau arholiad. Mae wedi cofrestru fel arholwr TGAU eleni. Nid yn rhy bell yn ôl byddai hyn wedi golygu parseli mawr o bapur yn cyrraedd ar y garreg ddrws a llawer o inc coch yn llifo. Bellach, mae'r "papurau" yn ymddangos fesul cwestiwn ar sgrin ei gyfrifiadur, yn union fel yr ysgrifennwyd nhw gan yr ymgeiswyr dair wythnos yn ôl. Mae'n gallu archwilio onglau gyda throshaen lliw neu chwyddo rhifau neu fformiwlâu amwys. Mae'r feddalwedd yn adio'r marciau i gyd ac yn neilltuo pob gradd. Mae ganddo dair wythnos i farcio rhyw ddwy fil ar bymtheg o gwestiynau.

Os oes ganddo ymholiad, gall anfon e-bost at y Prif Arholwr gan dderbyn ymateb cyflym, yn synod o gyflym weithiau. Y bore yma, anfonodd ymholiad cyn chwech o'r gloch a derbyniodd ateb yn syth. Mae'n amlwg bod y Prif Arholwr yn gysgwyr gwael hefyd.

Os yw byrddau arholi'n symud gyda'r oes, mae'n rhaid i ysgolion wneud hynny hefyd. Ganol mis Mehefin, ystyriodd y seminar diweddaraf a gynhaliwyd gan Gymdeithas Llywodraethwyr y Fro un o'r mentrau diweddaraf gan Lywodraeth

Cynulliad Cymru, y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae Dylan Jones, Pennaeth Ysgol Bro Morgannwg, yn cymryd rhan yn un o'r rhaglenni peilot a rhannodd ei brofiad uniongyrchol gyda ni o'r hyn mae'r Fframwaith yn ei olygu a sut y bydd yn gweithio.

Nod craidd y Fframwaith yw annog ysgolion ar bob lefel i rannu profiadau a chydweithredu er lles cyffredin disgyblion. Mae'n golygu rhannu arferion da, cyfuno syniadau a gwella safonau. Bydd hwn yn fater pwysig i bob ysgol yn y Fro yn ystod y flwyddyn nesaf wrth iddo gael ei gyflwyno ledled Cymru. Mae'n swnio'n rhagorol - os gallwn ni ei fforddio yn yr oes fwy llwm sydd ohoni.

Yn y cyfamser, hoffwn ddymuno gwyliau haf hynod haeddiannol i chi, gan obeithio y byddwch yn dychwelyd yn llawn ynni yn barod i wynebu pob her a ddaw yn ystod y flwyddyn academaidd newydd ym mis Medi.

Martin Price

**Cadeirydd Cymdeithas
Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac
Is-gadeirydd Llywodraethwyr,
Ysgol Uwchradd Babyddol St
Richard Gwyn, y Barri**

Ailstrwythuro Gwasanaeth Gwella Ysgolion y Fro

Mae Gwasanaeth Gwella Ysgolion y Fro wrthi'n cael ei ailstrwythuro i adlewyrchu'r angen i ymateb yn effeithiol i'r Agenda Gwasanaethau Plant ehangach, i gynyddu gallu'r gwasanaeth i ymateb i amrywiaeth amrywiol o anghenion sy'n cynyddu'n barhaus, ac i alinio ein hunain yn fwy strategol gyda'n Hawdurdodau Partner Consortiwm.

Mae'r strwythur newydd yn canolbwyntio ar sefydlu Timau Strategaeth mewn meysydd penodol e.e. Cyfnod Sylfaen, Arweinyddiaeth a Rheoli, Datblygu'r Cwricwlwm a'r Cyfnod Uwchradd (gan gynnwys 14-19).

Mae swyddi Arweinydd Tîm ar gyfer pob Tîm Strategaeth yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd a disgwyli'r bydd yr Arweinwyr yn cael eu penodi cyn diwedd tymor yr haf.

Lynette Jones

Pennaeth Cyflawniad

Ffôn: 01446 709447 • e-bost trwy JEFrancis@valeofglamorgan.gov.uk

Issue 17 Tymor yr haf 2009

Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Ffurfiwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lansiodd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 llywodraethwr etholedig ynghyd â 2 gynrychiolydd etholedig sy'n llywodraethwyr sy'n rhieni
- Sefydlwyd VSGA i:
- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid i sicrhau adnoddau digonol i ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion a rheoli a darparu adnoddau i ysgolion, i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Strategaeth Buddsoddi mewn Ysgolion

Bydd llawer o Lywodraethwyr yn ymwybodol bod datblygiad adeiladau ysgolion ledled Cymru wedi dibynnu'n fawr ar gyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) trwy'r Grant Gwella Adeiladau Ysgolion (SBIG), wedi'i ategu gan gyllid cyfalaf y Cynghorau eu hunain. Mae hyn wedi galluogi rhywfaint o ddatblygiad i gael ei gyflawni a chydabyddir yn eang bod angen buddsoddiad sylweddol bellach i sicrhau bod adeiladau ysgolion o safon sy'n addas ar gyfer y 21^{ain} Ganrif.

Gan gydnabod hyn, mae LICC yn gweithio'n agos gyda CLILC ac Awdurdodau Lleol i ddatblygu Rhaglen Ysgolion 21^{ain} Ganrif. Bydd hyn yn golygu cynnydd arwyddocaol i gyfanswm y cyllid sydd ar gael yn y dyfodol. Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol ddatblygu cynigion ar sail ardal yn hytrach nag ar sail ysgolion unigol ac i weithio'n agos gydag adrannau eraill y cyngor ac asiantaethau, er mwyn sicrhau atebion cynaliadwy i anghenion cymunedol ehangach. Bydd y gwaith hwn yn arwain at Gynllun Datblygu Strategol cyffredin i bob un o Ysgolion y Fro, a fydd yn sail ar gyfer y Strategaeth Fuddsoddi yn y dyfodol.

Rydym mewn cyfnod o newid ar hyn o bryd, ac yn ystod y cyfnod hwn bydd SBIG yn cael ei ddiddymu'n raddol a bydd lefelau cyllid yn cynyddu mewn camau dros gyfnod o dair blynedd wrth i'r Rhaglen Ysgolion 21^{ain} Ganrif gael ei datblygu.

Ynghyd â gwaith sy'n cael ei wneud ar y Cynllun Datblygu Strategol, rydym yn parhau i wneud cynnydd o ran sefydlu'r Strategaeth Buddsoddi mewn Ysgolion gyffredol.

Bydd llawer yn ymwybodol bod yr Awdurdod Lleol wedi llwyddo i sicrhau £5,000,000 ym mis Mawrth eleni dan y trefniadau ariannu trosiannol, i gwblhau ailddatblygiad Ysgol Gyfun y Bont-faen.

Yn ddiweddar, fe wnaeth y Cabinet gymeradwyo cyllid o £750,000 i gyflawni gwaith datblygu yn Ysgol St Cyres. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu'r cynllun i'r pwynt lle gall gwaith gychwyn ar y safle pe baem yn llwyddo i sicrhau'r cyllid angenrheidiol gan LICC. Wrth ddatblygu'r cynllun, byddwn yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn yr adrannau Hamdden ac Iechyd er mwyn sicrhau bod anghenion cymunedol ehangach yn cael eu hystyried.

Bydd cais am gyllid i gyflawni gwaith datblygu yn Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr yn cael ei gyflwyno i LICC ym mis Mehefin.

Paula Ham

Pennaeth Cynllunio Strategol a Pherfformiad

Ffôn: 01446 709133

e-bost trwy: JMJones@valeofglamorgan.gov.uk

Addysg 2015

Mae Penaethiaid, Cynrychiolwyr Llywodraethwyr, Cymdeithasau Addysgu, Partneriaid Addysg ac aelodau staff ar draws yr Awdurdod wedi bod yn gweithio i ddatblygu Addysg 2015, gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Addysg ym Mro Morgannwg.

Cynlluniwyd y ddogfen i egluro diben, ail-ddatgan gwerthoedd a nodi'r blaenoriaethau Addysg strategol a fydd yn berthnasol hyd at 2015.

Yng nghyd-destun cyfyngiadau ariannol, disgwyliadau cynyddol, gofynion yn gwrthdaro a lluo o fentrau addysgol, croesawyd gwerth blaenoriaethau addysgol cydlynol a all ddarparu'r sail ar gyfer cynllunio mwy hirdymor.

Dyma'r blaenoriaethau a nodwyd:-

- Diwallu anghenion grwpiau dysgwyr sy'n agored i niwed
- Cynnwys rhieni a gofalwyr mewn prosesau dysgu
- Gwella'r amgylchedd dysgu
- Gwella cyrhaeddiad disgyblion
- Ehangu dysgu 'l-16

Ategir pob blaenoriaeth gan fesurau canlyniadau eglur er mwyn sicrhau bod iAddysg 2015 yn cynnig llwybr ymarferol i sicrhau gwelliant, yn ogystal, gweledigaeth.

Mae'r weledigaeth wedi esblygu ers cael ei chroesawu'n wresog gan Lywodraethwyr yng Nghynhadledd Flynyddol y llynedd. Mae bellach yn cael ei chyflwyno i Aelodau Etholedig ei chymeradwyo cyn ei lansio ar draws y gwasanaeth. Cyflenwir copôâu i lywodraethwyr pob ysgol.

Bryan Jeffreys

Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu

Swyddogaeth y Rhiant-Lywodraethwr

Gall hon fod yn swyddogaeth anodd weithiau ac yn un sy'n cael ei chamddeall weithiau hefyd, nid gan y rhieni-lywodraethwyr eu hunain gymaint, ond yn hytrach gan y rhai sy'n eu hethol h.y. rhieni. Rhieni cynrychiadol yw rhieni-lywodraethwyr, yn hytrach na chynrychiolwyr rhieni. O'r herwydd, nid oes yn rhaid iddynt geisio cynrychioli safbwyntiau pob rhiant, a byddai'n anodd os nad yn amhosibl iddynt wneud hynny beth bynnag. Serch hynny, cyn belled â'i fod yn rhesymol, dylent geisio cyfathrebu gyda rhieni am faterion sy'n codi a chynnig syniad i'r llywodraethwyr eraill o'r ffordd mae rhieni'n teimlo am unrhyw fater penodol yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu. Fodd bynnag, pan fo'n rhaid i'r corff llywodraethu wneud penderfyniadau, mae pob rhiant-lywodraethwr yn rhydd i bleidleisio yn unol â'i safbwyntiau ei hun a dylai geisio penderfynu ar yr hyn sydd o fudd i'r holl ddisgyblion. Y peth pwysig i'w gofio ar ôl i benderfyniad gael ei wneud, boed a oedd rhieni-lywodraethwyr yn ei gefnogi ai peidio, yw y dylent fod yn ffyddlon i'r corff llywodraethu ac ni ddylent roi eu hunain mewn sefyllfa lle maent yn ochri gyda rhieni unigol neu grwpiau o rieni yn erbyn y corff llywodraethu.

Un agwedd arbennig o anodd i rieni-lywodraethwyr yw ymdrin â chwynion. Yn aml, mae rhieni eraill yn ystyried bod rhieni-lywodraethwyr yn sianel y gallant wneud cwyn drwyddi. Os oes gan riant g yn am ryw agwedd ar yr hyn sy'n digwydd yn yr ysgol, neu am aelod o staff, yna swyddogaeth y rhiant-lywodraethwr yw esbonio'r polisi a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt gan y corff llywodraethu ar gyfer ymdrin â chwynion - efallai y bydd gan yr ysgol daflen ar gyfer y diben hwn. Nid yw'r swyddogaeth yn golygu mynd i'r afael â'r g yn. Dylid cyfeirio'r rhiant at y pennaeth, neu, os yw'r g yn yn erbyn y pennaeth, at gadeirydd y llywodraethwyr. Fodd bynnag, os yw'r rhiant yn bryderus neu'n cael trafferth yn cysylltu â'r ysgol, gallwch gynorthwyo i hwyluso apwyntiad gyda'r pennaeth ac, o bosibl, awgrymu neu drefnu i ffrind fynd gydag ef/hi i'r cyfarfod hyd yn oed. Ond peidiwch â mynd i'r afael â manylion y g yn ei hun na mynegi barn o ran a ydych yn teimlo y gellir cyfiawnhau'r g yn. Efallai y bydd galw arnoch i wneud penderfyniad am ddilysrwydd cwyn yn ddiweddarach fel aelod o'r Pwyllgor Cwynion. Mae'n hanfodol felly eich bod yn ymddangos yn annibynnol ac yn ddiuedd.

Beth arall all rhieni-lywodraethwyr ei wneud? Mae gan y corff llywodraethu yn ei gyfanrwydd gyfrifoldeb am gyfathrebu gyda rhieni, ond mewn rhai achosion, lle mae'r corff llywodraethu wedi eu dirprwyo'n benodol i wneud hynny, gall rhieni-lywodraethwyr gymryd rhan yn y gwaith o gynhyrchu cylchlythyr rhieni. Fe wneir hyn mewn cydweithrediad â'r pennaeth neu aelodau eraill o staff yr ysgol fel rheol, gan eu bod nhw angen darparu gwybodaeth i rieni hefyd. Agwedd arall bosibl ar swyddogaeth gyfathrebu rhieni-lywodraethwyr yw rhannu penderfyniadau a wnaed gan y corff llywodraethu gyda rhieni. Unwaith eto, mae angen i hyn fod gyda chytundeb y corff llywodraethu ac mae'n rhaid eithrio unrhyw eitemau sy'n gyfrinachol.

Mae swyddogaeth y rhiant-lywodraethwr yn amlwg yn un bwysig, a chydabyddir hyn yng nghyfansoddiad cyrff llywodraethu gan fod rhieni-lywodraethwyr yn rhan fawr ohonynt. Mae'n hanfodol felly bod rhieni-lywodraethwyr yn cymryd rhan lawn yng ngwaith y corff llywodraethu gan mai nhw yw'r cysylltiad ag un o'r rhanddeiliaid allweddol yng nghymuned yr ysgol h.y. rhieni.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am swyddogaeth y rhiant-lywodraethwr, ffoniwch yr Uned Cymorth i Lywodraethwr ar 01446 709106/108.

Jeremy Morgan
Uned Cymorth i Lywodraethwyr
email: JerMorgan@valeofglamorgan.gov.uk

Arolwg Gwrth-fwlio

Mae'r Gwasanaeth Cynorthwyo Disgyblion wedi bod yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i gynhyrchu arolygiad ar wrth-fwlio i'w ddefnyddio mewn ysgolion yn y Fro. Mae'r Tîm Gwella Ymddygiad Plant Cynradd (PBIT) wedi datblygu holiaduron i'w defnyddio mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig. *ViewPoint*, y cwmni meddalwedd a gomisiynwyd gan y Cynllun Plant a Phobl Ifanc (CYPP), sydd wedi ysgrifennu'r rhaglen a fydd yn cael ei defnyddio mewn ysgolion.

Dewiswyd ysgolion sydd wedi derbyn hyfforddiant mewn strategaethau neu bolisiau gwrth-fwlio gan PBIT i brofi'r holiadur. Cynrychiolir ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a chyfrwng Cymraeg yn y gr p peilot.

Lansiwyd yr holiadur ym mis Ebrill. Mynychodd gynrychiolwyr o bron i 20 o ysgolion y lansiad i gyfarfod â'r bobl a gymerodd ran yn y gwaith o ddatblygu'r arolwg ac i weld arddangosiad o sut y bydd yr arolwg yn gweithio yn eu hysgolion. Mae'r arolwg yn cael ei sefydlu mewn ysgolion yn ystod mis Mai gyda chymorth technegol gan *ViewPoint*.

Gobeithir y bydd ysgolion cynradd yn cwblhau'r holiadur yn ystod tymor yr haf. Bydd ysgolion uwchradd, sydd angen rhagor o amser, yn cwblhau'r holiadur yn ystod tymor yr hydref. Bydd pob ysgol yn derbyn adborth manwl ar ymatebion eu disgyblion y gellir ei ddefnyddio wrth adolygu arferion a diweddarau polisiau gwrth-fwlio.

Bydd gan ysgolion unigol a'r Gwasanaeth Cynorthwyo Disgyblion fynediad at y data. Bydd y Tîm Gwella Ymddygiad Plant Cynradd ar gael i gynorthwyo ysgolion sy'n dymuno datblygu eu gwaith gwrth-fwlio ymhellach o ganlyniad i'r arolwg.

Nicky Sturgess
Athro Arbenigol
Tîm Gwella Ymddygiad Plant Cynradd
Ffôn: 01446 709180 • e-bost: Nsturgess@valeofglamorgan.gov.uk

Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY) – Seminar Cadeiryddion/Hyfforddiant Llywodraethwyr

Ar ddydd Llun 8 Mehefin 2009 yng Ngwesty Mount Sorrel, y Barri, cynhaliodd Gymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA) Seminar Cadeiryddion/sesiwn hyfforddi Llywodraethwyr ar y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY).

Dilynodd y sesiwn Gynhadledd Flynyddol lwyddiannus VSGA a gynhaliwyd ddydd Sadwrn 7 Mawrth gyda'r nod o gynnis golwg bellach ar y FfEY a'r angen i wella effeithiolrwydd ysgolion.

Cyflwynodd Dr Martin Price, Cadeirydd VSGA, Dr Dylan Jones, Pennaeth Ysgol Gyfun Bro Morgannwg sydd hefyd yn rhan o gynllun peilot FfEY yn y Fro. Siaradodd Dr Jones yn agored am FfEY, sy'n cyflwyno gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) ar gyfer gwella canlyniadau dysgu a lles i blant a phobl ifanc Cymru.

Mae FfEY yn seiliedig ar egwyddorion diwygio ar dair lefel – hynny yw, LICC, awdurdodau lleol ac ysgolion yn cydweithio i sicrhau newidiadau i systemau. Dan y fframwaith hwn, dylai'r holl gymuned addysg gydweithio, yn gyfartal ac o'r cychwyn cyntaf ar fentrau polisi a rhaglenni sy'n effeithio ar addysg. Nid yw diwygio ar dair lefel yn golygu ymgynghori a rhannu gwybodaeth yn unig, mae'n golygu gweithio gyda'n gilydd yn gydwethredol, yn gydlynol ac mewn partneriaeth er lles pob plentyn ac unigolyn ifanc.

Y diben moesol sy'n sail i'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw: *sicrhau'r canlyniadau dysgwyr gorau posibl i bob dysgwr ym mhob amgylchedd dysgu.*

Mae'r diagram yn amlinellu'r meysydd gweithgarwch y mae angen mynd i'r afael â hwy os yw gwelliannau i blant a phobl ifanc am gael eu cyflawni mewn ysgolion a thrywydynt.



Mae'n berthnasol i ysgolion: ar draws lefelau ystafell ddosbarth ac ysgol gyfan, awdurdod lleol a Llywodraeth y Cynulliad. Er mwyn iddo fod yn effeithiol, mae'n ofynnol i bob un o'r lefelau gydweithio ac alinio eu hymdrechion o fewn yr un fframwaith. Mae angen 'llinell welediad' eglur at y canlyniad dymunol o ddysgu gwell a lles dysgwyr gwell. Mae'r Fframwaith yn nodi ar bob lefel y camau i'w cymryd i sicrhau'r canlyniad dymunol.

O'i rhoi ar waith mewn ffordd integredig, mae pob elfen (arweinyddiaeth; gweithio gydag eraill; rhwydweithiau arferion proffesiynol; ymyrraeth a chymorth; gwelliant ac atebolrwydd; a chwricwlwm ac addysgu), yn cyfrannu at welliant. Mae rhaglenni cyfredol ac arfaethedig yn cael eu gosod o fewn y Fframwaith fel bod gweithgareddau wedi'u halinio tuag at nod gyffredin ac i sicrhau aliniad cyffredinol i effeithiolrwydd ysgolion.

Bydd LICC yn gwerthuso'r Cyfnod Peilot er mwyn sicrhau fod cyflwyniad y Fframwaith yn y dyfodol yn effeithiol ac yn addas ar gyfer ei ddiben. Bydd canlyniadau'r profi a'r gwerthuso yn cyfarwyddo lefel y cyllid sy'n angenrheidiol i gyflwyno'r Fframwaith ym mhob Ysgol yng Nghymru dros gyfnod o dair i bum mlynedd.

Mae rhagor o wybodaeth am y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar gael ar-lein trwy ddogfen LICC 'Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion' – Creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd:

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, ffoniwch yr Uned Cymorth i Lywodraethwyr ar 01446 709106/108.

Jeremy Morgan
Uned Cymorth i Lywodraethwyr



Newyddion gan Lywodraethwyr Cymru

Penodi Cyfarwyddwr Newydd

Penodwyd Jane Morris yn Gyfarwyddwr Llywodraethwyr Cymru yn ddiweddar. Mae gan Jane radd anrhydedd o Brifysgol Cymru. Cyn ymuno â Llywodraethwyr Cymru, bu gyrfa Jane ym maes addysg yn bennaf, wedi addysgu mewn tair ysgol uwchradd yn ne Cymru. Mae wedi bod mewn swyddi'n amrywio o athrawes ddosbarth i Bennaeth adran, yn ogystal â Chydgysylltydd Gwasanaethau Cymorth i Lywodraethwyr Cymru. Mae Jane yn llywodraethwr profiadol ac mae hefyd wedi bod yn Gadeirydd ac yn Is-gadeirydd ar ddau gorff llywodraethu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Rydym wedi Symud

Mae Llywodraethwyr Cymru wedi symud! Dyma ein cyfeiriad newydd:

3 Llys Oaktree, Mulberry Drive, Parc Busnes Porth Caerdydd, Caerdydd, CF23 8RS. Ffôn: 029 2048 7858

Cyhoeddiadau Diweddar

Cynhyrchwyd cyfres o ganllawiau i lywodraethwyr gan Lywodraethwyr Cymru yn ddiweddar ar y Corff Llywodraethu Effeithiol, ac fe'u hanfonwyd at Gadeiryddion pob corff llywodraethu yng Nghymru. Nod y canllawiau yw adeiladu ar y wybodaeth sydd ar gael eisoes yn y Llawlyfr i Lywodraethwyr Ysgolion yng Nghymru, yn enwedig Rhan 3, adran 7.

Mae tair rhan i'r canllawiau i lywodraethwyr:

1. Rôl Arweinyddiaeth y Corff Llywodraethu
2. Rôl Strategol y Corff Llywodraethu
3. Rôl y Corff Llywodraethu mewn Gwelliant Ysgol

Mae'r canllawiau hyn yn boblogaidd iawn gyda chyrrff llywodraethu ac rydym wedi derbyn llawer o geisiadau am gopiau ar gyfer pob aelod o gyrff llywodraethu a llawer o ganmoliaeth:

"Mae'n ddogfen dda iawn"

"... gan eu bod yn ganllawiau cyflym hynod ddefnyddiol"

Mae Ffeiliau Ffeithiau a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys leithoedd Tramor Modern (a gynhyrchwyd ar y cyd gyda CILT) a'r Ffrind Beirniadol. Os hoffech dderbyn copïau, ffoniwch 029 2048 7858 neu lawrlwythwch nhw o www.governorswales.org.uk/cyhoeddiadau

Digwyddiadau/Cyhoeddiadau'r Dyfodol

Cynhadledd yr Haf/Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – 11 Gorffennaf 2009

Bydd thema'r gynhadledd yn canolbwyntio ar yr Awdurdod Diogelu Annibynnol a Diogelu Plant mewn Addysg. Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fydd yn gwneud y prif anerchiad. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan swyddfa Llywodraethwyr Cymru ar 029 2048 7858.

Mae cyhoeddiadau i gadw golwg amdanynt yn y dyfodol yn cynnwys:

- * Ffeil Ffeithiau ar Lywodraethwyr Cymunedol
- * Ffeil Ffeithiau ar Lywodraethwyr Sylfaen
- * Gweithdrefn model ar gyfer cyrrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ar faterion disgyblu staff a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon

Gwahoddwyd Llywodraethwyr Cymru i roi tystiolaeth ysgrifenedig a llafar i'r Pwyllgor Menter a Dysgu ar y Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon. Rhoddwyd tystiolaeth bellach hefyd ar swyddogaeth llywodraethwyr yn deillio o ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Dysgu i weithrediad y Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon.

Gwybodaeth ar gael yn:

<http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-els-home/bus-committees-third-els-agendas.htm?act=dis&id=128975&ds=6/2009>

Gwasanaethau Llywodraethwyr Cymru

Mae gwefan Llywodraethwyr Cymru yn darparu'r wybodaeth berthnasol ddiweddaraf i lywodraethwyr ysgolion. Rhowch ychydig funudau o'ch amser (neu fwy!) i gymryd golwg ar y wefan – mae yno eitemau newyddion, Cwestiynau Cyffredin, lluo o gyhoeddiadau – yn amrywio o gyhoeddiadau Llywodraethwyr Cymru i gylchlythyrau cyfarwyddyd ac offerynnau statudol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, dolenni uniongyrchol i raglenni hyfforddiant llywodraethwyr Awdurdodau Addysg Lleol a mwy!

Rydym yn awyddus i ddatblygu ein gwefan a byddem yn croesawu unrhyw adborth, dolenni defnyddiol, Cwestiynau Cyffredin ac ati. Ebstiwch eich sylwadau i .

Rydym hefyd yn awyddus i glywed gan lywodraethwyr am y gwasanaethau y byddent yn hoffi i Lywodraethwyr Cymru eu cynnig a byddem yn croesawu unrhyw adborth. Ebstiwch . Edrychwn ymlaen at glywed gennych.

Mike Barker

Swyddog Datblygu (y De)
Llywodraethwyr Cymru

'Geiriau yn y Goedwig'

Yn ystod tymor yr haf 2008, cymerodd bedair ysgol gynradd ym Mro Morgannwg - Eagleswell, Sain Andras, Saint-y-brid a St Joseph ran mewn prosiect ar y cyd gyda Menter Addysg y Coed (FEI) a Theatr lolo. Ariannwyd y prosiect yn gyfartal gan Gyngor Celfyddydau Cymru a'r FEI.

Daeth y syniad ar gyfer y prosiect yn sgil awgrym a wnaed gan Amanda Gould, y Cynghorydd Cyswllt ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Ei nod gwreiddiol oedd hybu adrodd straeon gyda phlant meithrin a derbyn, ond datblygodd yn rhywbeth llawer mwy.

Mae'r Cyfnod Sylfaen yn rhoi pwyslais mawr ar ddefnyddio'r awyr agored fel amgylchedd arall lle gall plant ddysgu ac archwilio'n feunyddiol.

Cynhaliwyd y prosiect dros bedair wythnos a gweithiodd y plant gyda Sheena O'Leary, Swyddog Addysg y Comisiwn Coedwigaeth ar gyfer Caerdydd a'r Fro, Sarah Argent, cynhyrchydd/cyfarwyddwr rhydd-gyfrannol a dau actor o Theatr lolo.

Bu'r plant ar ddau ymweliad â'r goedwig yn Hensol gan roi cyfle iddynt gael profiad o fod yn yr awyr agored mewn amgylchedd coetir naturiol.

Yn dilyn yr ymweliad cyntaf, casglwyd safbwyntiau'r plant yn ôl yn yr ysgol ac yna fe wnaethant fyfyr



"Pencil" Woods!

yn ystod eu hail ymweliad â'r goedwig - gan glymu rhubanau ar y coed a hongian pensiliau anferth o'r canghennau, oherwydd i enw'r goedwig gael ei gamddeall fel coedwig 'Pencil' yn hytrach na choedwig Hensol!

Yn ystod yr ail ymweliad, fe wnaeth y plant gyfarfod ag unigolyn ag adenydd (ai tylwythen deg oedd hi?) a oedd yn byw yn y goedwig ac yn gwneud cawl



Cooking in "Pencil" Woods!

gyda llwch hud a Jack, bachgen oedd i fyny un o'r coed.

Taniodd y profiadau hyn ddychymyg y plant a chofnodwyd eu straeon yn ôl yn yr ysgol.

Rhannwyd y prosiect mewn digwyddiad i ddathlu yn y goedwig a fynychwyd gan Jane Hutt, Gweinidog y Cynulliad dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oed a Sgiliau, Bryan Jeffreys, Cyfarwyddwr Dysgu a Datblygu'r Fro a thîm Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC).

O ganlyniad i fynychu'r noswaith yn y goedwig yn Hensol, cydnabu tîm Cyfnod Sylfaen LICC - Jon Hawkins, Morfudd Roberts a Sarah Clarke, werth y prosiect a'r angen i'w rannu gydag ymarferwyr Cyfnod Sylfaen ledled Cymru. Trefnwyd cyfres o ddeg o gynadleddau yn y gogledd a'r de yn ystod gwanwyn 2009 ac arweiniwyd y gwaith gan Theatr lolo, yr FEI a Dysgu drwy Dirweddau.

Cynigiwyd Cynadleddau Profiadau Dysgu yn yr Awyr Agored i'r Cyfnod Sylfaen i ymarferwyr a chynghorwyr awdurdod lleol o bob cwr o Gymru er mwyn:

- Dangos mewn ffordd ymarferol sut y gellir defnyddio amgylchedd yr awyr agored i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen.
- Cynnig enghreifftiau o sut y gall prosiect fel "Geiriau yn y Goedwig" gynorthwyo ymarferwyr i ddarparu'r saith Maes Dysgu yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen.

Mynychodd un ar bymtheg o athrawon a phedwar aelod o staff Cynghori'r Fro gynhadledd LICC ar 31 Mawrth 2009, ynghyd â chydweithwyr o awdurdodau cyfagos. Rhannwyd y prosiect ymhellach ym mhob awdurdod hefyd trwy gyfarfodydd grwpiau clwstwr, fel y gofynnwyd gan LICC, er mwyn sicrhau bod yr arfer yn cael ei rannu gyda'r gynulleidfa ehangaf bosibl.

Yn dilyn llwyddiant y cynadleddau hyn, bydd dwy gynhadledd ychwanegol yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd 2009 ar gyfer y gwasanaethau



Magic Cook Book.



Exploring with Hanna (fairy?).

Amgueddfeydd, Archifdai a Llyfrgelloedd ac mae pob un ohonynt yn awyddus i sefydlu a datblygu cysylltiadau gyda'r dull Cyfnod Sylfaen a ddefnyddir mewn ysgolion.

Mae'r prosiect bellach wedi cael ei droi yn gynhyrchiad Theatr lolo ar gyfer plant meithrin o'r enw *'Finding Leaves for Soup'* sy'n teithio o gwmpas ysgolion yn y Fro a Chaerdydd ar hyn o bryd.

Mae oedolion a phlant wedi mwynhau bod yn rhan o'r prosiect hwn yn arw. Roedd cyfleoedd dysgu trawsgwricwlaidd y Cyfnod Sylfaen yn amlwg i bawb a gymerodd ran a chynigiwyd pob cyfle i blant atgyfnerthu eu dysgu trwy weithgareddau'n seiliedig ar sgiliau yn ôl yn eu hysgolion drwy'r ddarpariaeth barhaus.

Nododd y prosiect hwn y cyfleoedd ar gyfer dysgu sydd ar gael i blant mewn unrhyw amgylchedd dysgu penodol, gan amlygu llwyddiant yr addysgeg a'r dull a gymeradwyir yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-7 mlwydd oed.

Roedd yn bleser gweld y mwynhad oedd yn amlwg ar wyneb pob plentyn.

Fe wnaeth yr athrawon grybwyll *'rhyfeddod cegrwth'* a *'chwilfrydedd a chyffro'* y plant ac o'u *'denu trwy ddrws newydd i mewn i wlad hudol'*. Dywedodd un bod y plant *'wedi'u syfrdanu'* a bod eu hatgofion o fwynhad y plant o gymryd rhan mewn lleoliad mor naturiol yn y goedwig yn rhywbeth na fydd fyth yn ei anghofio...*'swynol, hudol ac yn canolbwyntio cymaint ar y plant'*.

Ysgrifennodd un fam:

'Cafodd fy merch ei swyno'n llwyr. Mae wedi tanio ei dychymyg ac mae wedi siarad am y peth byth ers hynny, roeddwn i wrth fy modd yn cael clywed am y 'cawl hud'. Tric clyfar iawn oedd dweud wrthynt y byddai'n barod y diwrnod wedyn! Mae'r llwch hud ganddi o hyd, ac mae'n ei gadw mewn blwch bach pan mae'n nofio neu yn y bath. Unwaith eto, llawer o ddiolch am gadw plentyndod yn fyw.'

Amanda Gould

Cynghorydd Cyswllt – Cyfnod Sylfaen

Ffôn: 01446 709874

e-bost: AGould@valeofglamorgan.gov.uk



Canllaw ar Reoliadau Trefniadau Cydlafurio (Ysgolion a Gynhelir a Chyrff Addysg Bellach) (Cymru) 2008

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhyddhau Cylchlythyr Cyfarwyddyd Rhif:007/2009 yn ymwneud â'r rheoliadau uchod.

Mae cydweithrediad rhwng darparwyr dysgu yn un o'r canlyniadau mae polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ei sicrhau, fel y nodir yn *Cymru'n Un: Rhaglen flaengar ar gyfer llywodraeth Cymru, Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith a Llwybrau Dysgu 14-19 a Thrawsnewid y Ddarpariaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*.

Bydd y trefniadau cydweithredu uchod yn galluogi cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir a chyrff addysg bellach i ddatblygu trefniadau gweithio ar y cyd ac, os ydynt yn dymuno, i ddirprwyo cyflawniad eu swyddogaethau i un neu fwy o gydbwyllgorau, cyn belled ag y caniateir dirprwyaeth o'r fath dan Reoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005.

Mae'r rheoliadau ar gael ar-lein ar wefan LICC:

<http://wales.gov.uk/docs/dcells/publications/090227collaborationarrangementseng.pdf>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am Drefniadau Cydlafurio, ffoniwch yr Uned Cymorth i Lywodraethwyr ar 01446 709106/108.

Jeremy Morgan
Uned Cymorth i Lywodraethwyr

Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) - Cynllun Fetio a Gwahardd Newydd

Mae Cynllun Fetio a Gwahardd cenedlaethol newydd yn cael ei gyflwyno i bobl sy'n gweithio neu'n gwirfoddoli gyda phlant. Dan y cynllun, bydd yr Awdurdod Diogelu Annibynnol (ISA) yn gwneud penderfyniadau am wahardd pobl anaddas rhag gweithio neu wirfoddoli gyda grwpiau sy'n agored i niwed (gan gynnwys plant).

Bydd gofyniad cyfreithiol i gyflogwyr wirio a yw unigolyn wedi cofrestru gyda'r ISA, sy'n golygu nad yw'r ISA wedi dod o hyd i unrhyw reswm hysbys pam na ddylai'r ymgeisydd weithio gyda phlant neu oedolion sy'n agored i niwed. **Mae'r ddeddfwriaeth yn nodi y bydd pob llywodraethwr ysgol newydd a phresennol yn cael ei gynnwys dan y cynllun.**

Bydd llywodraethwyr ysgolion yn cael eu cynnwys dan y term "Gweithgarwch a Reoleiddir" o ystyried y ffaith eu bod yn cyflawni swyddogaeth o "gyfrifoldeb a ddiffiniwyd". Yn syml, mae hyn yn golygu na all unigolion sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed neu blant fod yn llywodraethwyr mewn ysgolion.

Disgwyliwyd i'r cynllun gael ei sefydlu ym mis Hydref 2009, ond rydym yn deall bod y dyddiad hwn wedi cael ei symud i dymor y gwanwyn 2010 ar y cynharaf, a bydd yn cael ei gyflwyno fesul cam (dros 3 blynedd ar hyn o bryd). Yn y lle cyntaf, bydd angen i bob llywodraethwr newydd fod wedi'i gofrestru gyda'r ISA cyn cychwyn yn y swydd. Yr ail gam fydd cofrestru llywodraethwyr presennol nad ydynt wedi bod yn destun archwiliad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol, ac yna'r trydydd cam, y cam olaf a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i bob llywodraethwr sy'n weddill sydd wedi bod yn destun archwiliadau gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol i gael eu cofrestru.

Prin yw'r manylion sydd ar gael ar hyn o bryd am y gweithdrefnau y bydd angen eu dilyn dan y cynllun newydd. Rydym yn disgwyl canllawiau pellach gan yr ISA a Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) yn agosach at sefydlu'r cynllun, a byddwn yn diweddarau cyrff llywodraethu yn unol â hyn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein ar wefan yr ISA:

www.isa-gov.org.uk/

a/neu gwefan LICC:

<http://new.wales.gov.uk/topics//health/socialcare/vulnerableadults/vettingbarring/?lang=en>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am gynllun yr ISA yn y cyfamser, ffoniwch yr Uned Cymorth i Lywodraethwyr ar 01446 709106/108.

Jeremy Morgan
Uned Cymorth i Lywodraethwyr

All Skilled Up' – Prosiect Peilot Llythrennedd Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd

Ebrill - Mai 2009

Prosiect llythrennedd cyffrous a ffurfiwyd gan Adran Addysg Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd gyda chyfraniad Academi yw 'All Skilled Up'. Yr athroniaeth sy'n sail i'r prosiect yw gwneud llythrennedd yn fwy deniadol, ac yn arbennig i fechgyn, gan ddatblygu eu sgiliau llythrennedd trwy ddefnyddio pêl-droed a chwaraeon i ennyn eu brwdfrydedd. (Yn amlwg maent yn cydnabod y bydd gan ferched ddiddordeb ac y byddant yn cymryd rhan hefyd!)

Mae'r prosiect peilot yn cynnwys disgyblion Blwyddyn 5 o Ysgolion Cynradd Oak Field a Palmerston ym Mro Morgannwg. Byddant yn cymryd rhan mewn chwe sesiwn a arweinir gan dîm Addysg y Clwb. Bydd y sesiwn gyntaf yn cychwyn gydag ymweliad â chae Caerdydd, gan weithio gyda'r awdur Peter Reed i ysgrifennu barddoniaeth a chymryd rhan mewn 'helfa drysor llythrennedd'. Mae'r sesiynau canlynol yn cynnwys gweithgareddau

fel: 'Match Report', 'Be a commentator', sgiliau ymchwil - ymchwilio i hoff bersonoliaeth chwaraeon gan ddefnyddio adnoddau yn Llyfrgell y Barri, 'Press Conference' a 'Round Up'.

Bydd y disgyblion yn cymryd rhan mewn arolwg cyn ac ar ôl y prosiect i asesu'r newidiadau i'w hagweddau at lythrennedd. Bydd llawer o sgiliau llythrennedd yn cael eu defnyddio trwy ehangu cynnydd y disgyblion mewn llythrennedd, darllen ac ysgrifennu.

Mae'r Clwb yn gobeithio y bydd y prosiect peilot yn llwyddiannus (mae ysgolion eraill o siroedd eraill yn yr ardal yn cymryd rhan), ac yna gellid sicrhau rhagor o gyllid, a'r gobaith yw y bydd yn gallu cynnig y prosiect i amrywiaeth ehangach o ysgolion yn y dyfodol.

Susan Sibert

Cynghorydd Cyswllt – Llythrennedd

Ffôn: 01446 709340

e-bost: SSibert@valeofglamorgan.gov.uk

Aelodau Pwyllgor Rheoli Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro 2008-9

TMAe Pwyllgor Rheoli Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA) yn cynnwys 15 o lywodraethwyr a'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwyr (PGR) o'r sectorau Cynradd ac Uwchradd.

Os hoffai unrhyw lywodraethwyr fod yn rhan o Bwyllgor Rheoli VSGA, mae croeso iddynt fynychu fel arsylwyr.

Rhif	Teitl	Dechreuol	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfo
2	Cllr Mr	C	Elmore	Ysgolion Cynradd Colcot a Holton
3	Mrs	G	Evans	Ysgol Iolo Morganwg
4	Mr	G	Fogden	Ysgol Erw'r Delyn
5	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Feithrin Tregatwg ac Ysgol Llanilltud Fawr
6	Mrs	J	Griffiths	Ysgol Feithrin Cogan ac Ysgol Gynradd Cogan
7	Mrs	S	Hodges	Ysgol Sant Baruc ac Ysgol Gwaun y Nant
8	Mr	K	Ingram	Ysgol Ashgrove ac Ysgol Gynradd Albert
9	Cllr Mr	G	Kemp	Ysgol Gyfun y Bont-faen ac Ysgol Gynradd Rh s
10	Mr	P	Lewis	Ysgol Gyfun y Bont-faen
11	Mrs	A	Males	Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun St Cyres
12	Dr	M	Price	Ysgol Babyddol St Richard Gwyn
13	Mr	G	Price-Stephens	Ysgol Gynradd Llandochoau
14	Mr	D	Treharne	Ysgol Gwaun y Nant
15	Cllr Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Albert ac Ysgol Gynradd Victoria
PGR	Mrs	C	Baggett	Ysgol Gynradd Romilly
PGR				Gwag



Cllr Geoff Cox, Jamie Gordon - Ysgol Erw'r Delyn and Miles Punter, Head of Visible Services.

A'r buddugwyr oedd....

Weithiau, rydym yn cymryd rhan mewn cystadlaethau ond nid ydym yn siŕ o'r hyn a ddigwyddodd i'n hymdrechion. Gan ystyried hyn, hoffem ddiolch yn fawr iawn i chi am y gefnogaeth leol wych i ddau gynllun ailgylchu poblogaidd mewn ysgolion, a hoffem rannu'r canlyniadau.

Eleni, cymerodd 50 o ysgolion y Fro ran ym mhrosiect ailgylchu cardiau Nadolig y cyngor, mwy nag erioed o'r blaen. Enillwyd y gwobrau gan Ysgol Gynradd Babyddol St Joseph am yr ail flwyddyn yn olynol gyda chyfanswm o 276 cerdyn y disgybl, ac unwaith eto, Ysgol Uwchradd Babyddol St Richard Gwyn enillodd yr ail wobwr. Ysgol Erw'r Delyn oedd yn dathlu yn y categori ysgolion arbennig ar ôl casglu 366 cerdyn y disgybl. Mae'r ffigurau hyn yn golygu bod Ysgol St Joseph wedi casglu dros 56,000 o gardiau ar ei phen ei hun!

Casglwyd cyfanswm aruthrol o gardiau gan ddisgyblion unigol hefyd. Roedd dau achos i ddatlu yn Ysgolion Erw'r Delyn a St Richard Gwyn ar ôl i'r disgyblion Jamie Gordon a Lauren Williamson ennill y gwobrau ysgolion arbennig ac uwchradd i ddisgyblion unigol, gwerth £100 o dalebau. Ond seren y diwrnod oedd Georgia Lees o Ysgol Gynradd Holton, y pencampwr o blith y casglwyr cynradd, gyda chyfanswm syfrdanol o 27,600 o gardiau.

Yr un mor boblogaidd oedd y cynllun cenedlaethol rydym yn ei hyrwyddo yn ysgolion y Fro, *The Yellow Woods Challenge*. Unwaith eto, mae disgyblion wedi bod yn casglu hen gopiâu o gyfeiriaduron ffôn yr *Yellow Pages* ar gyfer y prosiect hirhoedlog hwn. Cymerodd 37 o ysgolion ran yn y fenter ailgylchu eleni. Ysgol Gynradd Babyddol St Helen sydd wedi ennill y wobwr gyntaf trwy gasglu 9 copi o'r *Yellow Pages* y disgybl, ac Ysgol Gynradd Llancarfan ac Ysgol Gynradd Babyddol St Joseph lenwodd yr ail a'r trydydd safle. Fe wnaeth y Cynghorwr Geoff Cox, Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gweledol ac Adeiladu grynhoi ein

hapusrwydd gan ddweud "Roedd y canlyniadau'n anhygoel. Sut bynnag y cymeroch chi ran, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i chi, gallwn ddiwynu bob amser ar ysgolion y Fro a'u cymunedau i sicrhau bod y cynlluniau hyn mor llwyddiannus. Da iawn a diolch am eich holl gefnogaeth".

Sam Harrison

Swyddog Ymwybyddiaeth o Wastraff

Os hoffech ragor o wybodaeth

ffoniwch: 01446 700111

neu anfonwch e-bost i:

visible@valeofglamorgan.gov.uk



Lauren Williamson - St Richard Gwyn.

Sesiynau Hyfforddi Llywodraethwyr – Tymor yr Haf a Thymor yr Hydref

Y tymor hwn, dylai pob llywodraethwr fod wedi derbyn Rhaglen Hyfforddiant i Lywodraethwyr Tymor yr Haf. Gweler isod fanylion yr un cwrs hyfforddi sydd ar ôl i'w gynnal y tymor hwn.

Hefyd wedi'i restru isod mae rhybudd ymlaen llaw o gyrsiau hyfforddi sydd eisoes wedi'u trefnu ar gyfer Tymor yr Hydref. Bydd Rhaglen Hyfforddiant Tymor yr Hydref hefyd yn cael ei dosbarthu ym mis Medi yn ôl yr arfer.

Os hoffech gadw lle ar unrhyw un o'r cyrsiau, ffoniwch yr Uned Cymorth i Lywodraethwyr ar **01446 709106/8** neu anfonwch e-bost i governors@valeofglamorgan.gov.uk

Jeremy Morgan
Governor Support Unit

Date	Course	Time	Location
Dydd Llun 6 Gorfennaf '09	Bwyta'n Iach - Swyddogaeth llywodraethwyr i wella iechyd disgyblion	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, y Barry
Dydd Mercher 30 Medi '09	Amddiffyn Plant	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, y Barry
Dydd Llun 12 Hydref '09	Hyfforddiant sefydlu ar gyfer llywodraethwyr newydd	6.30-8.30pm	Gwesty Mount Sorrel, y Barry
Dydd Llun 2 Tachwedd '09	Hyfforddiant sefydlu ar gyfer llywodraethwyr newydd	6.30-8.30pm	Gwesty Mount Sorrel, y Barry
Dydd Mawrth 10 Tachwedd '09	Protocolau Penodiadau Uwch	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, y Barry
Dydd Mercher 11 Tachwedd '09	Hyfforddiant ar gyfer clerod cyrff llywodraethu	6.30-8.30pm	Gwesty Mount Sorrel, y Barry
Dydd Mawrth 17 Tachwedd '09	Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (CYPP)	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, y Barry
Dydd Mawrth 24 Tachwedd '09	Rheoli Perfformiad	6.30-8.00pm	Gwesty Mount Sorrel, y Barry
Dydd Iau 26 Tachwedd '09	Cyllidebau/Cyllid Ysgolion	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, y Barry
Dydd Llun 30 Tachwedd '09	e-Ddiogelwch/Strategaeth TGCh	7.00-9.00pm	Gwesty Mount Sorrel, y Barry
Dydd Mercher 2 Rhagfyr '09	Hyfforddiant ar gyfer clerod cyrff llywodraethu	6.30-8.30pm	Gwesty Mount Sorrel, y Barry

Mewn cysylltiad â Chyngor Bro Morgannwg

Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg,
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Provincial House, Kendrick Road, Y Barry CF62 8BF

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Jeremy Morgan

Swyddog Uwch Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709108 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JerMorgan@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA

Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Provincial House
Kendrick Road, Barry CF62 4BF